## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A477 (CYFFORDD MYNEGBOST NASH, SIR BENFRO) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA A GWAHARDD TROEON PEDOL) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2), 84(1)(a), 84(2) a 124(3)(b) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 23 Medi 2026.

Effaith y Gorchymyn fydd:

(a) Gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darn o gefnffordd yr A477 sy'n ymestyn o bwynt 57 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Lower Nash hyd at bwynt 416 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr U6357 sy'n arwain at Upper Nash, Sir Benfro.

(b) Gwahardd pob cerbyd rhag gwneud troeon pedol o un gerbytffordd i gerbytffordd arall drwy'r bwlch yn y llain ganol gyferbyn â chyffordd cefnffordd yr A477 â ffordd sirol Dosbarth 1 yr A4075 i Benfro, Sir Benfro.

Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cyffordd Mynegbost Nash, Sir Benfro) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2025 (O.S. 2025/980 (Cy. 172)) wedi ei ddirymu gan y Gorchymyn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 23 Medi 2026 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a wnaed a'r plan, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Doc Penfro, Water Street, Doc Penfro, SA72 6DW ac yn Llyfrgell Penfro, Commons Road, Penfro, SA71 4EA.

Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim drwy e-bostio Trafnidiaeth.YGanganOrchmynion@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2443980.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a wnaed, y plan a'r Datganiad o'r Rhesymau, yn rhad ac am ddim, drwy e-bostio Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu at y Gangen Orchmynion,Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10**

## THE A477 TRUNK ROAD (NASH FINGERPOST JUNCTION, PEMBROKESHIRE) (40 MPH SPEED LIMIT AND PROHIBITION OF U-TURNS) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1), 2(2), 84(1)(a), 84(2) and 124(3)(b) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 23 September 2026.

The effect of the Order will be:

(a) To impose a 40 mph speed limit on the length of the A477 trunk road that extends from a point located 57 metres to the west of the centre of its junction with the lane leading to Lower Nash to a point located 416 metres to the east of the centre of its junction with the U6357 road leading to Upper Nash, Pembrokeshire.

(b) To prohibit all vehicles from making U-turns from one carriageway to another through the gap in the central reservation situated opposite the junction of the A477 trunk road with the Class 1 A4075 county road to Pembroke, Pembrokeshire.

The A477 Trunk Road (Nash Fingerpost Junction, Pembrokeshire) (Temporary Traffic Restriction & Prohibition) Order 2025 (S.I. 2025/980 (W 172)) is revoked by the proposed Order.

During a period of 6 weeks from 23 September 2026 a copy of this Notice, the made Order and plan may be inspected during normal opening hours at Pembroke Dock Library, Water Street, Pembroke Dock, SA72 6DW and at Pembroke Library, Commons Road, Pembroke, SA71 4EA.

The documents can also be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or obtained free of charge by e-mailing TransportOrdersBranch@gov.wales or writing to: Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ, quoting reference number qA2443980.

**A copy of this Notice, the made Order, plan and Statement of Reasons can be obtained in larger print, free of charge, by emailing TransportOrdersBranch@gov.wales or writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ, quoting reference number qA2443980.**

**3NQgan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2443980.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru